# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 10-08)

**Dyddiad: 16 Ebrill 2008**
**Amser: 9.00am – 11.20am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Jeff Cuthbert, Caerffili
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwyr y Pwyllgor

David Blair, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Dr Dennis Gunning, Cyfarwyddwr y Grwp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Gareth Hall, Cyfarwyddwr Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
James Price, Cyfarwyddwr Strategaeth Polisi a Gwasanaethau Corfforaethol, Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nodwyd bod Christine Chapman wedi anfon ymddiheuriadau.

### 2: Drafft terfynol yr adroddiad dilynol ar drefniadau ariannu ysgolion yng Nghymru
### Papur: EL(3) 10-08 – Papur 1, Atodiad

2.1 Bu'r pwyllgor yn gwneud sylwadau ar ei adroddiad dilynol ar drefniadau ariannu ysgolion yng Nghymru, a fyddai'n cael ei osod gerbron y Cynulliad maes o law.

**Sesiwn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.37(vi), penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod gweddill yr eitem hwn.

**Sesiwn gyhoeddus**

### 3: Tystiolaeth i ymchwiliad y pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch
### Papur: EL(3) 10-08 – Papur 2

3.1 Croesawodd y pwyllgor Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth; Dr Dennis Gunning, Cyfarwyddwr y Grwp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes; Gareth Hall, Cyfarwyddwr Adran yr Economi a Thrafnidiaeth; a James Price, Cyfarwyddwr Strategaeth Polisi a Gwasanaethau Corfforaethol, Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

3.2 Bu'r pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu'r canlynol:

Nodyn ar y gwaith a wneir i roi argymhellion arolwg Gibson, 'Commercialisation in Wales - A report by the independent Task and Finish Group', ar waith.

Nodyn ar lefel y cysylltiad rhwng y Cynghorau Sgiliau Sector a sefydliadau addysg uwch gan amlygu'r meysydd lle bo angen gwneud gwelliannau.

**Papur i'w nodi:**

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol
### Papur: EL(3) 09-08 - Cofnodion

Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ebrill 2008**